Cyllid & Thollau EM

Jim Harra
Dirprwy Brif Weithredwr
a'r Ail Ysgrifennydd Parhaol

2/75
100 Parliament Street
Llundain
SW1A 2BQ

Llyr Gruffydd AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn 03000 585878
E-bost perm.secs@hmrc.gsi.gov.uk

www.gov.uk/cymraeg

Dyddiad 14 Mai 2019

Annwyl Mr Gruffydd

Diolch am eich llythyr dyddiedig 2 Mai 2019.

Fel y gwyddoch, caiff statws trethdalwyr Cymreig ei bennu yn ôl eu man preswylio. Yn y lle cyntaf, defnyddir gwybodaeth cod post i adnabod trethdalwyr Cymreig. Os yw un o gwsmeriaid CThEM yn byw mewn cod post yng Nghymru, fel y pennir gan ddata codau post y Swyddfa Ystadegau Gwladol, caiff ei nodi ar ein systemau fel trethdalwr Cymreig. Yn sgil datganoli treth incwm i'r Alban, rydym wedi dysgu gwersi o ran adnabod a sicrhau trethdalwyr, ac rydym yn hyderus bod gennym ddull cadarn.

Pan nodir bod cwsmer yn drethdalwr Cymreig ar systemau CThEM, rhoddir cod 'C' iddo. Yna, mae CThEM yn anfon codau treth at gyflogwyr, a hynny er mwyn iddynt wneud y didyniadau perthnasol ar ran eu cyflogeion. Mae'n bwysig, felly, fod y cod cywir yn cael ei anfon at y cyflogwr a hefyd ei fod yn cael ei weithredu'n gywir ganddo.

Rydym yn hyderus bod CThEM wedi anfon codau 'C' cywir at gyflogwyr ar gyfer trethdalwyr Cymreig. Mae'n bosibl nad yw rhai trethdalwyr sy'n preswylio yng Nghymru wedi cael cod 'C' hyd yn hyn, a hynny os ydynt ond wedi symud i Gymru yn ddiweddar neu os nad ydynt wedi diweddaru manylion eu cyfeiriad gyda CThEM. Bydd hyn bob amser yn wir ar gyfer trethdalwyr Cymreig newydd, a bydd systemau CThEM yn eu canfod ac yn gweithredu'r cod cywir cyn gynted â phosibl.

Fodd bynnag, cawsom wybod nad yw rhai cyflogwyr wedi gweithredu'r codau 'C', a roddwyd gan CThEM, yn gywir. Mae CThEM wedi ymgysylltu'n helaeth â chyflogwyr a darparwyr meddalwedd gyflogres drwy gydol y paratoadau ar gyfer cyflwyno cyfraddau Treth Incwm Cymru (CTIC), gan ddefnyddio ein sianeli cyfathrebu sydd wedi'u hen sefydlu a chyflwyniadau pwrpasol. Gwnaethom ddarparu manylebau technegol a gwasanaethau prawf er mwyn sicrhau bod gan gyflogwyr a darparwyr meddalwedd gyflogres yr holl wybodaeth yr oedd ei hangen arnynt.

Ein profiad yn sgil cyflwyno cyfradd yr Alban o Dreth Incwm oedd bod rhai cyflogwyr ddim yn gweithredu'r cod 'S' yn gywir i ddechrau. Rhoesom gynlluniau ar waith, felly, ar gyfer gweithgarwch lliniaru pellach ar gyfer CTIC, sy'n cynnwys cynnal archwiliad yn gynnar ym mis Mehefin i brofi pa mor dda mae cyflogwyr yn gweithredu'r codau 'C' a anfonwyd atynt gan CThEM. Pan fo anghysondeb rhwng y cod a anfonwyd gan CThEM a'r cod a weithredwyd gan y cyflogwr, bydd CThEM yn ail-anfon y cod 'C' at y cyflogwr. Trafodwyd y dull lliniaru hwn, a chytunwyd arno, gan y Bwrdd Prosiect CTIC, sy'n cynnwys cydweithwyr o Lywodraeth Cymru.

Er gwaethaf yr ymgysylltu a gawsom â chyflogwyr, mae'n siomedig nad yw rhai ohonynt wedi gweithredu'r codau'n gywir. Mewn rhai achosion, didynnwyd y swm anghywir o dreth oddi ar rai unigolion. Rwyf ar ddeall mai'r rheswm dros hyn oedd problemau gyda'r feddalwedd gyflogres a ddefnyddir gan rai cyflogwyr, a bod y cyflogwyr hynny sydd wedi profi'r problemau hyn wrthi'n cywiro'u systemau ac yn egluro'r gwall i'w cyflogeion.

Rwy'n siŵr eich bod yn deall mai dim ond hyn a hyn y gall CThEM ei wneud i sicrhau bod cyflogwyr yn gweithredu'r codau a roddir iddynt ar gyfer eu cyflogeion yn gywir dan yr amgylchiadau hyn. Rydym yn credu bod gennym raglen gynhwysfawr o ymgysylltu a sicrhau, a byddwn yn dal ati i'w hadolygu.

Gallaf hefyd roi sicrwydd i chi y caiff unrhyw anghysondebau yn y codau a weithredir gan gyflogwyr eu cywiro yn ystod y flwyddyn, neu yn ystod y broses cysoni diwedd blwyddyn. Bydd hyn yn sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cael y refeniw cywir.

Rwy'n copïo'r ateb hwn i Rebecca Evans AC, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd.

Gobeithiaf fod yr ateb hwn o gymorth.

Jim Harra
DIRPRWY BRIF WEITHREDWR A'R AIL YSGRIFENNYDD PARHAOL